**Cofnodion**

**Cyfarfod gyda'r Trydydd Sector**

**Dydd Mercher 13 Chwefror 2019**

**11:30 – 12:15**

**Ystafell Gynhadledd C**

**Tŷ Hywel**

**<u>Yn bresennol:</u>**

**Llywodraeth Cymru:-**
Kirsty Williams AC - Gweinidog Addysg, (ME),
Andrew Clark - Diprwy Gyfarwyddwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau, (AC),
Lloyd Hopkin - Pennaeth MDPh y Dyniaethau, (LH), a
Brian Herbert - EPS Busnes y Llywodraeth, (BH).

**Y Trydydd Sector:-**
Judith Stone (JS) – WCVA
Paul Glaze (PG) – CWYVS
Rebecca Falvey (RF) – Busnes yn y Gymuned
Kathryn Robson (KR) – Addysg Oedolion Cymru
Uzo Iwobi (UI) – BAME Alliance
Phillip Manghan (PM) - Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Ben Lloyd (BL) – Achub y Plant
Susie Ventris-Field (SVF) – Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Lynne Hill (LH) – Plant yng Nghymru

Croesawyd a chyflwynwyd pawb.

**Eitem 1 – Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.**

ME - nododd fod pob cam gweithredu wedi'i gwblhau a chytunwyd ar y cofnodion.

**Eitem 2 - Y cwricwlwm newydd, cyfoethogi disgyblion a'r trydydd sector yng Nghymru**

ME - nododd fod y Papur Gwyn Diwygio'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu ar y cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar a bod ymgynghoriad yn mynd rhagddo. Caiff drafft cyntaf cynnwys a manylion y cwricwlwm newydd ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ebrill, yn barod i'w gyflwyno mewn ysgolion Cynradd o 2022.

JS - Mae gan y Trydydd Sector rôl i'w chwarae wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm. Byddai'n ddefnyddiol deall y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau a phwy mewn ysgolion ac awdurdodau lleol fydd am ymgysylltu â'r Trydydd Sector o bosibl.

RF - nododd y cyflwynwyd ymchwil gan WISERD mewn digwyddiad y Sefydliad Materion Cymreig yn ddiweddar a oedd yn canolbwyntio ar obeithion a phryderon pobl ifanc a busnesau. Roedd hefyd yn edrych ar y dysgu proffesiynol sydd ei angen i gyd-fynd â'r cwricwlwm. Byddai'r Trydydd Sector yn dymuno helpu i leddfu'r pryderon hynny a rhoi cymorth i athrawon.

ME – Roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phenaethiaid rhwng nawr a lansiad y cwricwlwm draft ym mis Ebrill ar yr hyn y mae angen iddynt feddwl amdano gyda'r consortia a'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol ynglŷn â'r angen am ddysgu proffesiynol ehangach i Benaethiaid ac athrawon yn fwy cyffredinol. Bydd angen canolbwyntio ar addysgeg a meddwl yn greadigol, gan weithio gyda sefydliadau o amgylch ysgolion megis busnesau, y mae rhai ysgolion eisoes yn ei wneud. Gall hyn fod yn fwy o her i eraill, er enghraifft, ysgolion gwledig lle bydd anghenion yn wahanol. Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu sioe deithiol i egluro pam fod y newidiadau yn cael eu gwneud i'r cwricwlwm. Mewn ffordd rydym wedi bod yn rhy lwyddiannus yn yr ystyr bod pawb am ymgysylltu wrth i'r cwricwlwm gael ei ddatblygu, ond mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffordd ystyrlon i bob partner ymgysylltu. Mae enghreifftiau da eisoes o ymgysylltu â'r Trydydd Sector, yn enwedig yn y Sector Ieuenctid o ran addysgeg gyda phlant hŷn a disgyblion sy'n ymgysylltu llai â'u dysgu, gan gydweithio ag addysg brif ffrwd.

LH – Gallai'r Trydydd Sector ymgysylltu â Phenaethiaid ar yr un pryd â Llywodraeth Cymru, gan roi adborth, efallai yn y digwyddiad ar wahân i randdeiliaid sy'n cael ei drefnu gydag ysgolion arloesi.

PM – Mae'n dda clywed y Gweinidog yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando ar y Trydydd Sector wrth ddatblygu'r cwricwlwm.

ME – Bydd yn bwysig defnyddio eich arbenigedd mewn ysgolion. Mae rhywfaint o arfer da yn digwydd eisoes, ond rhaid i Benaethiaid edrych ar yr adnodd llawn sydd ar gael yn eu cymunedau i gyflwyno'r cwricwlwm.

PM – Mae'n wych clywed hynny, a diolch am rannu eich ymrwymiad i ymgysylltu â'r Trydydd Sector. A fyddech yn barod i wneud datganiad am ymgysylltiad y Trydydd Sector gyda'r cwricwlwm?

ME – Byddwn wrth gwrs. Mae angen i ni annog ysgolion i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Bydd y fframwaith atebolrwydd ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd yn wahanol ac yn annog Penaethiaid i ddangos ehangder y cwricwlwm a gyflwynir yn eu hysgolion.

SVF - Mae gan y Trydydd Sector rôl i'w chwarae wrth ddatblygu addysgeg a dysgu proffesiynol. Beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â hynny?

ME – Mae cyllid ar gael i ysgolion i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus, yn enwedig o ran dysgu proffesiynol sy'n cael effaith fawr ac sy'n arwain at newidiadau yn yr ystafell ddosbarth, p'un a yw hynny o ysgol i ysgol neu'n cynnwys Addysg Uwch hefyd. Mae rhai ysgolion eisoes yn gwneud yn dda, tra bod angen cymorth ychwanegol ar ysgolion eraill ac nid yw hyn wedi'i gyfyngu i ysgolion arloesi yn unig.

- **Cam Gweithredu –** Kevin Palmer i gynghori ar y ffordd orau i'r Trydydd Sector ymgysylltu â dysgu proffesiynol.

BL – Mae rhaglen ymgysylltu â rhieni gydag awdurdodau lleol a chonsortia. Fodd bynnag, nid oes gan bob un yr un meddylfryd. Beth yw disgwyliadau awdurdodau lleol a chonsortia o ran lledaenu gwybodaeth a chefnogi ysgolion i gyfoethogi profiad disgyblion?

ME – Gwasanaeth gwella ysgolion yw'r consortia ac mae ganddynt rôl i'w chwarae hefyd ym maes datblygiad proffesiynol drwy arbenigwyr pwnc. Mae ymgysylltu â rhieni yn rhan bwysig o wella ysgolion. Mae'n anodd arddweud o'r canol, ond mae rhannu arfer gorau, lledaenu a defnyddio ymchwil yn rhan annatod o'r hyn y dylai consortia fod yn ei wneud. Byddaf yn gofyn i Estyn edrych ar arfer gorau o ran ymgysylltu â rhieni a chaiff y broses o ailganolbwyntio ar ysgolion bro ei llywio gan y gwaith hwn.

UI - Rydym wedi bod yn ymgysylltu â swyddogion yn yr Adran, ond hoffem gefnogi ysgolion yn eu gwaith a sicrhau bod consortia yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael. Bu cynnydd mawr yn nifer y digwyddiadau hiliol yr adroddir amdanynt mewn ysgolion. Sut gallwn helpu i roi'r adnoddau sydd eu hangen ar athrawon i ddelio â digwyddiadau hiliol, gan ddisgyblion a rhieni?

ME – I ddisgyblion mae'r MDPh Iechyd a Lles yn un agwedd ar y cwricwlwm y gallwn ei defnyddio. Mae'n ymwneud â datblygiad proffesiynol unwaith eto, a sut y gallwn roi'r sgiliau i athrawon er mwyn iddynt ymateb yn briodol i ddigwyddiadau o'r fath, boed hynny'n ddisgyblion neu'n rhieni. Mae'n ymwneud â chreu'r amser yn y diwrnod ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhoi hyder ac arweinyddiaeth iddynt.

PM – A oes unrhyw gyllid ar gael i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau dwyieithog i ddisgyblion?

ME – Rydym yn darparu swm sylweddol o gyllid eisoes megis gwerslyfrau ac adnoddau ar Hwb ac ati, ond bydd fy swyddogion yn cadarnhau p'un a all y Trydydd Sector gael gafael ar y cyllid hwn.

- **Cam Gweithredu** – swyddogion i ymchwilio i'r cyfle i gael cyllid gan Is-Adran y Gymraeg ar gyfer datblygu adnoddau ar gyfer Hwb drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Eitem 3 – Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru**

KR – Mae cyfle i gysylltu mwy o ran Dysgu Oedolion ac, er enghraifft, Datblygiad Cynaliadwy a Dysgu Byd-eang er bod hyn yn gefnogol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i raddau helaeth.

ME – Mae'r ymgynghoriad bellach wedi cau ac mae'r ymatebion wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yn glir nad oedd unrhyw gonsensws yn yr ymatebion o ran cynllunio ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol. Fodd bynnag, rydym yn ystyried y ffordd orau y gallwn newid y seilwaith i gyflawni hynny. Mae rhai newidiadau wedi cael eu gwneud eisoes, er enghraifft, y cynnydd mewn darpariaeth rhan amser ym maes Addysg Uwch ac mae newidiadau eraill yn mynd rhagddynt o ran cyllid ar gyfer Addysg Bellach. Bydd yn achos o flaenoriaethu o fewn adnoddau presennol ond bydd hefyd angen bod yn deg a chyfiawn.

AC – Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ymateb i ganlyniadau'r ymgynghoriad yn y pedair wythnos nesaf. Mae Dysgu Oedolion yn cwmpasu amrywiaeth o anghenion o bobl ifanc gyda phroblemau llythrennedd a rhifedd, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, pobl ddi-waith, pobl mewn swydd sydd am wella eu cymwysterau a datblygu sgiliau yn fwy cyffredinol. Mae Cymru ar y blaen o ran Prentisiaethau gyda mwy o oedolion yn cymryd rhan.

UI - Mae'r defnydd o lwybrau i ddysgu heb eu hachredu yn rhywbeth y gellid ei annog.

ME – Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn llwybrau amgen i gymwysterau, er enghraifft, mae'r Brifysgol Agored yn cynnig graddau drwy ddysgu o bell er mwyn i Gynorthwywyr Iechyd gymhwyso fel nyrsys, sydd yn rhywbeth y gallem ystyried ei ehangu i gynorthwywyr addysgu a gweithwyr ieuenctid o bosibl.

BC – Gallai gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar elwa ar hynny hefyd.

ME – Mae angen i Gymru fod yn genedl ail gyfle. Diolch am y drafodaeth ddefnyddiol heddiw.